Deddfwriaeth Diogelu Data

Dogfen Bolisi Briodol

Polisi ar Brosesu Data Categori Arbennig o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR) Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent

Prosesu data biometrig er mwyn adnabod person naturiol yn benodol.

Medi 2021

Fersiwn 2.0

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Pwrpas
V1.0	01/07/19	S.Lloyd	Drafft Gwreiddiol
V1.1	12/08/19	S.Lloyd	Mân Ddiwygiadau
V1.2	14/08/19	S.Lloyd	Fformat Swyddfa'r

			Comisiynydd Gwybodaeth
V1.3	05/02/20	S.Lloyd	Rheoli Fersiynau
V1.4	10/02/20	D. Howe	Adolygwyd
V1.5	17/02/20	S.Lloyd	Adolygwyd
V1.6	01/04/20	S.Lloyd	Adolygwyd
V1.7	08/07/20	S.Lloyd	Diwygiadau Cyfreithiol
V1.8	24/08/20	S.Lloyd	Adolygiad y Swyddog Diogelu Data
V1.9	08/07/21	S.Lloyd	Adolygiad yr Uwch-Swyddog Cyfrifol
V2.0	17/09/21	S.Lloyd	Terminoleg Genedlaethol

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir yn y Ddogfen Bolisi Briodol hon yr ystyr a roddir iddynt yn adran 3 o'r Ddogfen Bolisi ar gyfer OIFR oni chânt eu diffinio fel arall.

Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen bolisi hon yn unol â rhwymedigaethau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Dylid ei darllen ochr yn ochr â Gweithgareddau Prosesu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent (a gynhelir yn unol ag Erthygl 30 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Siarter Gwybodaeth Bersonol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae'r polisi diogelu data sy'n ymwneud yn benodol ag OIFR hefyd i'w weld yn y Weithdrefn Weithredu Safonol a'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a'r Ddogfen Bolisi Briodol o dan Ran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018.

Fel rhan o'r pwerau sydd gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o dan y gyfraith gyffredin i ddiogelu bywyd ac eiddo, rydym yn prosesu data categori arbennig yn unol â gofynion Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (sydd wedi'i hymgorffori yng nghyfraith y DU o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno ac a ategir gan Ran 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno.

Nid ymdrinnir â'r ffordd rydym yn prosesu data categori arbennig a data am droseddau at ddibenion gorfodi'r gyfraith yn y ddogfen hon. Caiff gweithgareddau prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith eu cyflawni gennym yn rhinwedd ein swyddogaeth fel awdurdod cymwys a daw o dan Ran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac mae'n destun Dogfen Bolisi Briodol ar wahân.

Y Ddogfen Bolisi hon

Mae'r amodau ar gyfer prosesu data categori arbennig a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i ni lunio Dogfen Bolisi Briodol, sy'n nodi ac yn esbonio ein gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (sy'n ymwneud â phrosesu data personol) a pholisïau sy'n ymwneud â chadw a dileu data personol o'r fath.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio ein gweithgareddau prosesu ac yn bodloni gofynion Atodlen 1, Rhan 4 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (Dogfen Bolisi Briodol a Mesurau Diogelwch Ychwanegol).

Disgrifiad o'r Data a Brosesir

Y data categori arbennig a brosesir drwy ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR)

- Data biometrig er mwyn adnabod person naturiol yn benodol.

Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr

Y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau pan fo:
(i) cyfryngau yn cael eu cofnodi'n uniongyrchol o Destun sy'n bresennol; neu
(ii) cyfryngau yn cael eu caffael fel arall yn lle eu cofnodi,

gyda'r bwriad o'u dadansoddi drwy ddefnyddio'r system technoleg adnabod wynebau. Gallai canlyniadau proses ddadansoddi o'r fath ddylanwadu ar ddigwyddiadau y mae'r ffilm yn ymwneud â nhw mewn amser real.

Y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau a gychwynnir gan weithredwr sy'n cofnodi delwedd o berson penodol ac yn ei defnyddio i naill ai (i) helpu'r heddlu i ganfod pwy yw person yn y ddelwedd neu (î) cadarnhau ble mae person wedi ymddangos o'r blaen mewn cyfryngau eraill a ddelir gan yr heddlu.

Yn Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, mae hyn yn cynnwys defnyddio technoleg adnabod wynebau â ffôn symudol (Dyfais OIFR) sy'n cymharu ffotograff o wyneb person a dynnwyd ar ffôn symudol sy'n cael ei brosesu i greu Templed Biometrig sydd wedyn yn cael ei gymharu â'r Templed Biometrig o ddelweddau sydd yn y

Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau er mwyn helpu swyddog i adnabod Testun.

Ystyrir bod data biometrig a ddefnyddir i adnabod unigolyn yn benodol yn ddata personol sensitif. At ddiben y gwaith prosesu hwn byddwn yn casglu data personol aelodau o'r cyhoedd a fydd yn cynnwys Delwedd Chwilota a allai gael ei defnyddio drwy dynnu Templed Biometrig ohoni er mwyn eu hadnabod yn benodol. Pan na fydd y data hyn yn cyfateb i'r hyn a ddelir ar y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a bennwyd ymlaen llaw ni fydd yn cael eu prosesu ymhellach a bydd yn cael eu dileu'n barhaol. Ni chesglir unrhyw ddynodyddion personol eraill yn ychwanegol at y Templed Biometrig.

Rydym yn cadw cofnod o'n gweithgareddau prosesu yn unol ag Erthygl 30 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Amodau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ar gyfer prosesu data categori arbennig

Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol o dan yr Erthyglau canlynol o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data: -

Amodau cyfreithlon ar gyfer prosesu categorïau arbennig o ddata personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data:

Erthygl 9(2)(a) – cydsyniad penodol

O dan yr amgylchiadau cyfyngedig lle rydym yn ceisio cydsyniad, rydym yn gwneud yn siŵr bod y cydsyniad yn ddiamwys ac at un neu fwy o ddibenion penodol, ei bod yn weithred wirfoddol a chadarnhaol sy'n seiliedig ar wybodaeth lawn a gofnodir ac a reolir er mwyn sicrhau y caiff hawliau unigol eu hwyluso, gan gynnwys tynnu cydsyniad yn ôl.

E.e. prosesu delweddau gan staff sy'n cymryd rhan er mwyn dilysu OIFR.

Erthygl 9(2)(c) – buddiannau allweddol i fywyd

Mae'n angenrheidiol prosesu delweddau er mwyn diogelu buddiannau allweddol i fywyd testun y data neu berson naturiol arall lle nad yw testun y data yn gallu cydsynio yn gorfforol nac yn gyfreithiol.

E.e.prosesu delweeddau mewn gwrthdrawiadau traffig ffyrdd lle y gall person fod yn anymwybodol gyda'r bwriad o achub ei fywyd drwy gael gwybodaeth berthnasol a gofnodwyd amdano os yw ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

Erthygl 9(2)(g) – Budd Sylweddol i'r Cyhoedd

E.e. Adnabod unigolion coll neu ddiogelu plant neu unigolion sy'n agored i niwed.

Erthygl 9(2)(j) - Ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol
E.e. Cynnal gwerthusiad academaidd o degwch OIFR.

Mae adran 10 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn ategu Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, sy'n ei gwneud yn ofynnol i amodau canlynol Atodlen 1 gael eu bodloni pan fo Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn dibynnu ar Erthygl 9(2)(g).

Amod Atodlen 1 ar gyfer prosesu

Data Categori Arbennig

Rydym yn prosesu data categori arbennig at y dibenion yn Rhan 1, paragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018: -

- Paragraff 4 – Ymchwil ac ati.

Bodlonir yr amod hwn os oes angen prosesu'r data at ddibenion archifo neu ddibenion gwyddonol neu er mwyn cynnal ymchwil hanesyddol, bod y data yn cael eu prosesu yn unol ag Erthygl 89(1)o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (fel y'i hategir gan adran 19) a bod y prosesu o fudd i'r cyhoedd.

Bwriedir i werthusiad academaidd annibynnol o OIFR gael ei gynnal. Bydd gweithgarwch rhannu data yn destun Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Bydd unrhyw weithgarwch rhannu data wedi'i gyfyngu o ran amser drwy lwyfan rannu ar y we yn hytrach na thrwy broses trosglwyddo data. Caiff partneriaid academaidd fynediad i'r llwyfan drwy gyfleuster mewngofnodi diogel am gyfnod cyfyngedig o amser. Dibynnir ar ddiben ymchwil wyddonol yma. Lle y bo'n bosibl defnyddir data wedi'u hanonymeiddio neu ddata o dan ffugenwau. Pan fo aelodau o staff yr heddlu yn cydsynio i'w delweddau gael eu defnyddio at ddibenion profi'r system neu werthuso ei pherfformiad, cesglir y cydsyniad hwn yn unol â safonau moeseg ymchwil cydnabyddedig.

Rydym hefyd yn prosesu data categori arbennig at y dibenion canlynol a nodwyd ym mharagraffau 6 a 18 o Ran 2 o Atodlen 1 (amodau budd sylweddol i'r cyhoedd) y mae'n ofynnol i ni baratoi Dogfen Bolisi Briodol yn eu cylch:

- Paragraff 6 – Dibenion statudol ac ati a dibenion y llywodraeth – arfer swyddogaeth a roddir i berson drwy ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith

Bodlonir yr amod hwn os oes angen prosesu'r data er mwyn arfer swyddogaeth a roddir i berson drwy ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith A bod angen gwneud hynny am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd

Mae gan yr heddlu ddyletswydd o dan y gyfraith gyffredin nid yn unig i atal a chanfod troseddau ond hefyd i amddiffyn y cyhoedd a diogelu bywyd ac eiddo: dyma'r 'reolaeth y gyfraith' berthnasol y mae angen prosesu data yn unol â hi er mwyn i'r heddlu arfer ei swyddogaethau. Mae angen prosesu'r data hefyd am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd, hynny yw, er mwyn diogelu'r cyhoedd. Wrth benderfynu a oes angen prosesu data, bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent bob amser yn ystyried a ellir defnyddio dulliau llai ymwthiol heb danseilio'r amcan na buddiannau'r unigolyn wedi'u cydbwyso â buddiannau'r gymuned.

Lle bynnag y bo modd, bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ceisio adnabod unigolyn drwy ddulliau traddodiadol. Os nad oes modd gwneud hynny, er enghraifft pan amheuir bod yr unigolyn wedi rhoi ffugenw, yna gellir defnyddio OIFR.

- Paragraff 18 – Diogelu plant neu unigolion sy'n wynebu risg

Bodlonir yr amod hwn os oes angen prosesu'r data er mwyn diogelu unigolyn o dan 18 oed (neu unigolyn sydd dros 18 oed ac yn wynebu risg h.y. sy'n agored i niwed am resymau a ddiffinnir ym mharagraff 18) rhag esgeulustod neu niwed corfforol neu emosiynol neu ddiogelu lles corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolion, pan na ellir rhoi cydsyniad neu pan na ellir ei gael yn rhesymol o dan yr amgylchiadau perthnasol a bod angen prosesu'r data am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd.

Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Egwyddor Atebolrwydd (Erthygl 5(2) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)

Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi rhoi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith er mwyn bodloni gofynion atebolrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Penodi swyddog diogelu data sy'n gyfrifol am ddiogelu data mewn perthynas ag OIFR ac sy'n atebol yn uniongyrchol i dîm Brif Swyddog Heddlu De Cymru.
- Mabwysiadu dull 'diogelu data'n fwriadol ac yn ddiofyn' wrth gynnal ein gweithgareddau.
- Cadw dogfennaeth am ein gweithgareddau prosesu.

- Mabwysiadu a gweithredu polisïau diogelu data a sicrhau bod gennym gontractau ysgrifenedig â'n proseswyr data.
- Rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith mewn perthynas â'r data personol a brosesir gennym.
- Cynnal asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer ein gweithgareddau prosesu risg uchel.

Rydym yn adolygu ein mesurau atebolrwydd yn rheolaidd ac yn eu diweddaru neu'n eu diwygio pan fo angen.

Egwyddor (a): cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder

Rhaid i weithgarwch prosesu data personol fod yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw. Mae ond yn gyfreithlon os yw'n seiliedig ar y gyfraith ac i'r graddau y mae'n seiliedig arni a naill ai bod testun y data wedi cydsynio i'r data gael eu prosesu neu fod y gweithgarwch prosesu yn bodloni o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 1.

Rydym yn darparu gwybodaeth glir a thryloyw am y rhesymau pam rydym yn prosesu data personol, gan gynnwys ein sail gyfreithlon dros brosesu yn ein hysbysiad preifatrwydd a'r ddogfen bolisi hon.Mae'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer OIFR yn rhoi manylion penodol am y ffordd y caiff data eu prosesu a sut mae'r mesurau rydym wedi'u rhoi ar waith yn sicrhau bod y gweithgareddau prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw.Mae dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth ychwanegol am y ffordd y defnyddir technoleg adnabod wynebau ar gael i'r cyhoedd yn Hafan | Heddlu De Cymru (south-wales.police.uk).

Mae angen prosesu data gan ddefnyddio OIFR at ddibenion budd sylweddol i'r cyhoedd ar sail swyddogaethau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o dan y gyfraith gyffredin a allai fod y tu allan i ddibenion gorfodi'r gyfraith yn llym (y byddai data yn cael eu prosesu ar eu cyfer o dan Ran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018); mae'n gymesur â'r nodau yr anelir at eu cyflawni (gweler uchod am amodau ar gyfer prosesu lle rydym wedi esbonio'r amodau deddfwriaethol y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn dibynnu arnynt ac enghreifftiau o ddibenion sy'n bodloni pob un o'r amodau hyn). Mae arferion Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn parchu'r hawl i ddiogelu data ac yn defnyddio mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau testun y data i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol ac yn gyfreithlon mewn cymdeithas ddemocrataidd. Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent bob amser yn ystyried a yw defnyddio OIFR yn gwbl angenrheidiol (h.y. gan ystyried mesurau eraill nad ydynt yn cynnwys prosesu data categori arbennig ac a allent gyflawni'r un canlyniad) a bydd yn sicrhau y bodlonir o leiaf un o amodau perthnasol y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data neu ofynion prosesu data categori arbennig a gofynion cysylltiedig Deddf Diogelu Data 2018.

Egwyddor (b): cyfyngiadau o ran dibenion

Rydym yn prosesu data personol pan fo angen gwneud hynny er mwyn diogelu buddiannau allweddol i fywyd testun y data, cyflawni ein swyddogaethau o dan y gyfraith gyffredin i ddiogelu bywyd ac eiddo a diogelu plant a phobl sy'n agored i niwed, sydd oll o fudd sylweddol i'r cyhoedd fel yr esboniwyd uchod.

Dim ond lle nad yw'n anghyson â'r diben y'i casglwyd ar ei gyfer (gan gynnwys ymchwil i sicrhau cywirdeb y dechnoleg sy'n cael ei datblygu) y caiff y data hyn eu prosesu ymhellach.

Dim ond lle mae pŵer cyfreithiol i wneud hynny ac yn unol â gofynion diogelu data y byddwn yn rhannu'r data personol hyn â sefydliad arall.

Golyga hyn, yn benodol, ein bod yn ystyried beth rydym yn ceisio ei gyflawni, a oes mesurau amgen na fyddent yn cynnwys prosesu data categori arbennig ond a fyddai'n cyflawni'r un canlyniadau, fwy neu lai, ac yn cael yr un effaith neu lai o effaith ar unigolion a'r gymuned.

Os byddwn yn rhannu data a gasglwyd ar gyfer un o'n dibenion cyfreithlon â rheolydd arall, byddwn yn dogfennu ei fod wedi'i awdurdodi'n gyfreithiol i brosesu'r data at ddiben cyfreithlon o dan ddeddfwriaeth diogelu data a bod y gwaith prosesu yn angenrheidiol ac yn gymesur â'r diben hwnnw.

Ni fyddwn yn prosesu data personol at ddibenion sy'n anghydnaws â'r diben gwreiddiol y'u casglwyd ar ei gyfer.

Ni fyddwn yn prosesu data a gasglwyd at ddiben sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith (am fanylion, gweler y Ddogfen Bolisi Briodol ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelu Data) at ddiben nad yw'n ddiben sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith oni fydd y gwaith prosesu wedi'i awdurdodi'n gyfreithiol a'i fod yn bodloni gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Egwyddor (c): lleihau data

Rydym yn prosesu data sydd eu hangen at y dibenion a nodwyd ac yn sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn berthnasol ac nad ydynt yn ormodol mewn perthynas â'r diben(ion) y'u prosesir ar ei gyfer (eu cyfer). Y wybodaeth a brosesir gennym yw'r wybodaeth sydd ei hangen at ein dibenion ac sy'n gymesur â nhw yn unig. Pan roddir data personol i ni neu pan fyddwn yn cael data personol, ond nad ydynt yn berthnasol i'n dibenion datganedig, byddwn yn eu dileu. Enghraifft o hyn fyddai petai delwedd unigolyn arall yn cael ei chasglu na fyddai'n destun ymchwiliad.

At hynny, mae angen i'r data fod o ansawdd derbyniol at ddibenion cymharu e.e. delwedd o wyneb ag o leiaf 50 picsel rhwng llygaid y testun. Yn achos OIFR, mae digon o ddata biometrig wynebol i'w cymharu yn erbyn cronfa ddata. Caiff pob delwedd chwilota ei dileu ar y ddyfais symudol a'r system technoleg adnabod wynebau ar unwaith.

Yn achos OIFR, mae digon o ddata biometrig wynebol i'w cymharu yn erbyn cronfa ddata. Caiff pob delwedd a dynnir drwy ddefnyddio'r dechnoleg (Delweddau Chwilota) ei dileu ar y ddyfais symudol a'r system technoleg adnabod wynebau ar unwaith.

Yn y pen draw, gweithredwr dynol fydd yn penderfynu a oes cyfatebiad rhwng y Ddelwedd Chwilota a Delwedd yr Unigolyn lle mae'r gymhariaeth awtomataidd yn awgrymu mai'r un person sydd dan sylw o bosibl. Mae hwn yn fesur diogelwch ychwanegol er mwyn sicrhau na chaiff unigolion tebyg ond anghywir eu nodi.

Egwyddor (d): cywirdeb

Ni fyddwn yn cadw'r Ddelwedd Chwilota o'r Testun na'r templed biometrig am fwy o amser nag sydd ei angen at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith y mae'n cael ei phrosesu ar eu cyfer. Caiff y Ddelwedd Chwilota ei dileu'n awtomatig ar y Ddyfais OIFT a'r system technoleg adnabod wynebau ar unwaith. Dim ond ychydig o eiliadau y bydd y broses gymharu yn ei gymryd. Os nodir bod cyfatebiad, bydd gweithredwr dynol yn ystyried y delweddau ymhellach. P'un a yw'r Gweithredwr yn penderfynu bod y cyfatebiad yn debyg ond anghywir neu fod cyfatebiad, caiff y ddelwedd ei dileu'n awtomatig ac ar unwaith ar y Ddyfais OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau. Pan fyddwn yn dod yn ymwybodol bod data personol a geir mewn Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau yn anghywir neu'n anghyfredol, o ystyried y diben y maent yn cael eu prosesu ar ei gyfer, byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff y data hynny eu dileu neu eu cywiro yn ddi-oed. Proses awtomataidd yw hon ac mae'n digwydd bob deg munud. Bydd yn cynnwys cymharu delweddau yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau a delweddau o'r systemau tarddiol. Rhoddir gwerth hash ar bob set o ddelweddau a chânt eu cymharu er cywirdeb er mwyn sicrhau mai'r un unigolyn sydd dan sylw. Os bydd diffyg cydbwysedd caiff rhybudd ei anfon i dîm y gronfa ddata i'w hadolygu. Os byddwn yn penderfynu peidio â'u dileu na'u cywiro, er enghraifft am fod y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni i brosesu'r data yn golygu nad yw'r hawliau hyn yn gymwys, byddwn yn dogfennu ein penderfyniad ac yn cymryd camau priodol i hysbysu testun y data. Os byddwn yn dileu neu'n cywiro data personol byddwn yn hysbysu unrhyw dderbynwyr rydym wedi rhannu'r data hynny â nhw. Un mesur diogelu ychwanegol yn y broses yw y bydd swyddog yr heddlu yn ceisio cadarnhau pwy yw'r unigolyn â llaw cyn defnyddio OIFR.

Egwyddor (e): cyfyngiadau storio

Caiff yr holl ddata categori arbennig a brosesir gennym gan ddefnyddio OIFR at ddibenion gorfodi'r gyfraith eu dileu ar unwaith. Caiff y Ddelwedd Chwilota o unigolyn, gan gynnwys y Templed Biometrig, ei dileu'n awtomatig ar unwaith. P'un a yw'r swyddog yn penderfynu bod y cyfatebiad yn debyg ond anghywir neu fod cyfatebiad, caiff y ddelwedd ei dileu'n awtomatig ac ar unwaith ar y Ddyfais OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau. Rydym yn pennu'r cyfnod cadw ar gyfer y data hyn yn seiliedig ar ein rhwymedigaethau cyfreithiol a'r angen i'w cadw ar gyfer ein hanghenion busnes. Caiff ein hamserlen cadw ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru pan fo angen.

O dan amgylchiadau cyfyngedig, caiff delweddau a Thempledi Biometrig eu defnyddio at ddibenion ymchwil ac i werthuso effeithiolrwydd a pherfformiad OIFR. Lle y bo'n bosibl, caiff data personol eu hanonymeiddio neu defnyddir ffugenwau. Caiff data personol sy'n cael eu prosesu at ddibenion ymchwil eu prosesu yn unol â chytundeb rhannu data sy'n gofyn am gael digon o sicrwydd ynglŷn â diogelwch y wybodaeth wrth iddi gael ei chludo a phan na fydd yn cael ei chludo, gan gynnwys mesurau diogelwch ffisegol a thechnegol a mesurau diogelwch sy'n ymwneud â phersonél. Bydd mesurau o'r fath yn destun gwaith craffu gan Swyddogion Diogelwch Gwybodaeth yr Heddlu a'r Swyddog Diogelu Data.

Egwyddor (f): uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)

Caiff data personol a brosesir gan OIFR eu prosesu o fewn ein rhwydwaith cyfrifiadurol diogel achrededig a leolir yn lleol yn ardal Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn unol â pholisïau diogelwch cenedlaethol a lleol. Caiff gwybodaeth copi caled ei phrosesu yn unol â'n polisïau rheoli gwybodaeth. Cymhwysir Polisïau Diogelu Data o ddechrau mentrau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol â'n rhwymedigaethau diogelu data a phennu lefelau priodol o fesurau diogelwch a rheolaethau technegol a sefydliadol wrth brosesu data personol a data sensitif. Bwriedir i'n holl fesurau diogelwch ddiogelu data rhag cael eu prosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon, eu colli'n ddamweiniol, eu dinistrio neu eu difrodi.

Mae rheolaethau mynediad priodol ar waith ar gyfer ein systemau electronig a'n storfeydd ffisegol gan gynnwys, er enghraifft, prawf dilysu aml-ffactor i gael mynediad i ddyfeisiau symudol (ar ffurf mewngofnodi lluosog/codau mynediad/systemau adnabod wynebau ac ati), diogelu cyfrineiriau, amgryptio a systemau cloi. Perchenogion Asedau Gwybodaeth sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff yr holl brosesau rheoli gwybodaeth eu cymhwyso at wybodaeth a bod cylch parhaus o waith adolygu a phrosesau nodi a rheoli risg gwybodaeth. Mae OIFR hefyd wedi mynd drwy Asesiad cadarn o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Mae'r pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant sylfaenol ar ddiogelu data a rhaid iddynt gael hyfforddiant gorfodol ar reoli gwybodaeth bob blwyddyn. Darperir hyfforddiant penodol i swyddogion sy'n gweithio gydag OIFR, a ategir gan Weithdrefnau Gweithredu Safonol pwrpasol

Mae'r systemau a ddefnyddir gennym i brosesu data personol yn ein galluogi i ymateb i geisiadau unigolion i arfer hawliau a dileu neu ddiweddaru data personol ar unrhyw adeg lle y bo'n briodol. Caiff popeth sy'n digwydd ar systemau gweithredu ei gofnodi mewn log archwilio sy'n golygu bod modd nodi'r cam a gymerwyd, pryd y'i cymerwyd a phwy a'i cymerodd.

Cadw a Dileu

Yn benodol i OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau

- Delwedd o'r Testun fel y'i cofnodwyd gan OIFR (Delwedd chwilota) – wedi'i dileu ar unwaith ar y Ddyfais OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau.
- Templed Biometrig o Ddelwedd Chwilota – yn cael ei ddileu ar unwaith yn y system technoleg adnabod wynebau
- Delweddau o Unigolion a'r Templed Biometrig (a ddelir ar y system technoleg adnabod wynebau) – yn dilyn yr un cyfnodau cadw â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu ar gyfer System Rheoli Cofnodion Niche

Llyfr Nodiadau Poced Electronig

- Llyfr Nodiadau Poced Electronig – cyfnod cadw gwybodaeth bersonol yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (a nodir yn fanwl yn yr Adolygiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data mewn perthynas â'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig), heb gynnwys y Ddelwedd Chwilota.

System Ffynhonnell – Lluniau a Dynnwyd yn y Ddalfa a Lluniau o Unigolion Coll

Gweler y ddogfen 'Review of the Use and Retention of Custody Images', a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Chwefror 2017 (argymhelliad 4)

Dim euogfarn – ar gais
Grŵp 1 neu 2 (Materion Diogelu'r Cyhoedd a throseddau rhywiol a threisgar a throseddau difrifol eraill yn y drefn honno) – 10 mlynedd ar gais ac wedyn adolygiad
Grŵp 3 (pob trosedd arall) – 6 blynedd ar gais ac wedyn adolygiad
Grŵp 4 (unigolion coll) – 6 blynedd wedyn adolygiad

Caiff yr holl ddata personol eraill eu storio yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.
Grŵp 1 – y testun yn 100 oed wedyn adolygiad
Grŵp 2 – cyfnod clir o 10 mlynedd wedyn adolygiad
Grŵp 3 – cyfnod clir o 6 blynedd
Grŵp 4 – (unigolion coll) – 6 blynedd wedyn adolygiad

Dyddiad adolygu'r Ddogfen Bolisi Briodol

Cedwir y polisi hwn tra bydd ein gwaith prosesu yn mynd rhagddo ac am o leiaf 6 chwe mis ar ôl i'n gwaith prosesu ddod i ben.

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn neu ei ddiwygio'n amlach os bydd angen.

Hefyd, ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn defnyddio OIFR mewn dogfennau ategol perthnasol, gan gynnwys -

- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol OIFR – Canllaw i swyddogion
- Polisi OIFR
- Asesiad o Effaith OIFR ar Gydraddoldeb
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol iPatrol – Canllaw i swyddogion, gan gynnwys y Llyfr Nodiadau Poced Electronig
- Asesiad o Effaith OIFR ar Ddiogelu Data
- Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data iPatrol

Nodir isod bolisïau/dogfennau canllaw perthnasol eraill sydd ar gael i bersonél yr heddlu:

Gwybodaeth am Ddiogelwch Gwybodaeth
Polisi Diogelu Data

Canllaw ar Asesu'r Effaith ar Ddiogelu Data
Canllawiau ar Reoli Asedau Gwybodaeth
Llawlyfr i Berchenogion Asedau Gwybodaeth
Canllawiau ar Reoli Risg Gwybodaeth
Canllawiau ar Leihau Data, Anonymeiddio a Defnyddio Ffugenwau
Canllawiau ar Gydsyniad
Amserlen Cadw'r Heddlu

Cymeradwyo'r Ddogfen Bolisi

Y sawl a gwblhaodd y Ddogfen Bolisi Briodol	Enw (mewn priflythrennau)	**Scott Lloyd** **Prif Arolygydd**
	Dyddiad:	**08/07/2021**
Swyddog Diogelu Data	Enw:	**Louise Voisey**
	Dyddiad:	**24/08/2020**
Llofnod Cymeradwyo (Bydd angen cael cymeradwyaeth naill ai'r Uwch-Swyddog Cyfrifol/y Perchennog Asedau Gwybodaeth neu Bennaeth yr Uned)	Llofnodwyd:	
	Enw (mewn priflythrennau)	**Mark Travis** **Prif Gwnstabl Cynorthwyol**
	Dyddiad:	**08/07/2021**